

# Boreol Weddi Morning Prayer



# Eglwys Dewi Sant St David's Church

## Y Rhagarweiniad / The Introduction

Arglwydd, agor ein gwefusau,  
A'n genau a fynega dy foliant.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Yn gynnar yn y bore  
daw fy ngweddi atat.  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**  
Yr wyt yn llefaru yn fy nghalon ac yn dweud  
"Ceisia fy wyneb";  
am hynny ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd.  
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**  
Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyf,  
a myfyrdod fy nghalon  
yn gymeradwy i ti,  
O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

O Lord, open our lips,  
And our mouth shall proclaim your praise.

Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.

Early in the morning  
my prayer comes before you.  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**  
You speak in my heart and say  
'Seek my face';  
your face, Lord, will I seek.  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**  
Let the words of my mouth  
and the meditation of my heart  
be acceptable in your sight, O Lord,  
my strength and my redeemer.  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

## Gweinidogaeth y Gair / The Ministry of the Word

*Ar ôl y Salm:*

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

*Darlleniad o'r Hen Destament*

*Cantigl o'r Efengyl (Benedictus)*

Yn nhrugaredd dy galon, O Dduw,  
fe dyr annom y wawr oddi uchod.

Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel  
am iddo ymweld â'i bobl a'u prynu i ryddid;  
Cododd waredigaeth gadarn i ni : yn nhŷ Dafydd ei was  
Fel y llefarodd trwy enau ei broffwydi sanctaidd  
yn yr oesoedd a fu

Gwaredigaeth rhag ein gelynion  
ac o afael pawb sydd yn ein casáu

Fel hyn y cymerodd drugaredd ar ein hynafiaid  
a chofio ei gyfamod sanctaidd,

Y llw a dyngodd wrth Abraham ein tad  
y rhoddai inni gael ein hachub o afael gelynion,

*After the Psalm:*

Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.

*A reading from the Old Testament.*

*The Gospel Canticle (Benedictus)*

In your tender compassion, O God,  
the dawn from on high shall break upon us.

Blessed be the Lord the God of Israel  
for he has come to his people and set them free.

The Lord has raised up for us a mighty Saviour  
born of the house of his servant David.

Through his holy prophets God promised of old  
to save us from our enemies  
from the hands of all who hate us.

To show mercy to our forebears  
and to remember his holy covenant.

This was the oath God swore to our father Abraham  
to set us free from the hands of our enemies,

A'i addoli yn ddi-ofn  
mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder  
ger ei fron ef holl ddyddiau ein bywyd.

A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn broffwyd y Goruchaf  
oherwydd byddi'n cerdded o flaen yr Arglwydd  
i baratoi ei lwybrau,

I roi i'w bobl wybodaeth am waredigaeth  
trwy faddeuant eu pechodau.

Hyn yw trugaredd calon ein Duw  
fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith,

I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd  
yn nhywyllwch cysgod angau  
a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.

### Gogoniant i'r Tad...

Yn nhrugaredd dy galon, O Dduw,  
**fe dyr arnom y wawr oddi uchod.**

*Darlleniad o'r Testament Newydd.*

Free to worship him without fear  
holy and righteous before him  
all the days of our life.

And you, child, shall be called  
the prophet of the Most High  
for you will go before the Lord to prepare his way,

To give his people knowledge of salvation  
by the forgiveness of their sins.

In the tender compassion of our God  
the dawn from on high shall break upon us,

To shine on those who dwell in darkness  
and the shadow of death  
and to guide our feet into the way of peace.

### Glory to the Father...

In your tender compassion, O God,  
**the dawn from on high shall break upon us.**

*A reading from the New Testament.*

## Y Gweddïau / The Prayers

*Gellir ddefnyddio colect y dydd neu'r canlynol.*

*The collect of the day or the following may be used.*

O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,  
y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,  
a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:  
amdiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynyon,  
fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy nodded,  
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwyd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O God, the author of peace and lover of concord,  
to know you is eternal life,  
to serve you is perfect freedom:  
defend us in all assaults of our enemies,  
that we, surely trusting in your protection,  
may not fear the power of any adversaries;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Dragwyddol Dduw a Thad,  
y crewyd ni trwy dy allu  
a'n prynu trwy dy gariad,  
tywys a nertha ni â'th Ysbryd,  
fel y gallwn ein rhoi ein hunain i ti  
trwy garu a gwasanaethu'n gilydd;  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Eternal God and Father,  
by your power we are created  
and by your love we are redeemed:  
guide and strengthen us by your Spirit,  
that we may give ourselves to you  
in love and service of one another;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## Y Diweddgllo / The Conclusion

*Dywedir geiriau'r Gras.*

*The words of The Grace are said.*

Bendithied yr Arglwydd ni, cadwed ni rhag drwg  
a'n dwyn i fywyd tragwyddol. **Amen.**

The Lord bless us and protect us from all evil  
and keep us in eternal life. **Amen.**

Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru yw *Gweddi Ddyddiol 2009* (yn cynnwys *Trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y teitl Boreol a Hwyrrol Weddi 2009*) y cynhwyswyd deunydd ohono yn y gwasanaeth hwn. // *Daily Prayer 2009* (comprising *Additional Orders of Service entitled Morning and Evening Prayer 2009*), material from which is included in this service is copyright © Church in Wales Publications 2009.

**Eglwysi Br  Madryn Churches**